| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **7 Mawrth 2023** |
| **PWNC** | **Calendr Pwyllgorau 2024/25** |
| **PWRPAS** | **Mabwysiadu’r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2024/25** |
| **AWDUR** | **Ian Jones**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

## Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Mabwysiadu’r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2024/25.

## CEFNDIR A RHESYMEG

1.1 Cyflwynir y calendr o ddyddiadau pwyllgorau’r Cyngor ar gyfer 2024/25. Mae’r Calendr yn cynorthwyo’r Cyngor, ei Aelodau a’r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor.

1.2 Noder mai dyma’r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu busnes y Cyngor.

1.3 Tra gwneir pob ymdrech i osgoi cynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau’r ysgol, nid yw hynny yn bosib ar bob achlysur os am sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor.

1.4 Ymgynghorwyd â swyddogion perthnasol ynghyd a Awdurdod Parc Cenedlaethol ar fersiwn drafft y calendr pwyllgorau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro a chyfarfodydd eraill. Yn ychwanegol, rydym wedi ceisio sicrhau nad oes gwrthdaro gyda dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd er nad yw holl ddyddiadau 2024/25 yn wybyddus eto.

1.5 Yn dilyn trafodaeth am y Calendr Pwyllgorau yn Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar y 27 Chwefror , amlygwyd yr angen i osgoi cyfarfodydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, gan fod aelodau yn cynrychioli’r Cyngor arno. Yn dilyn hyn bu i ni newid dyddiad Pwyllgor Pensiynau yn Ionawr 2025 i sicrhau nad oedd gwrthdaro. Pwysleisir mai dim ond ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod Tân yr ydym yn gallu sicrhau dim gwrthdaro, nid oes modd i ni sicrhau nad oes gwrthdaro ar gyfer yr holl is bwyllgorau.

## CALENDR PWYLLGORAU 2024/25

2.1 Gweler yr atodiad ar gyfer dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2024/25.

2.2 Noder fod dyddiadau'r holl gyfarfodydd wedi llithro ychydig o gymharu â blwyddyn arferol yn sgil Etholiad Comisiynydd yr Heddlu sy’n cael ei gynnal ar 2 Mai

2024. O ganlyniad ni fydd cyfarfod Cyntaf y Cyngor tan yr wythnos ganlynol 9 Mai 2024.

2.3 Gweler fod dyddiad wrth gefn ar gyfer Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn ar gyfer mis Medi, gan y bydd angen cyfarfod ar gyfer trafod systemau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Bydd hyn yn ddarostynedig i benderfyniad y Cyngor llawn ynghylch rhaglen waith system Pleidlais Sengl drosglwyddadwy sydd i'w drafod ar y 7fed o Fawrth, 2024.

**BARN SWYDDOGION STATUDOL**

**Y SWYDDOG MONITRO**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y PENNAETH CYLLID**

Rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir. O safbwynt materion ariannol, mae'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer y cyfarfodydd perthnasol yn caniatáu i'r Cyngor gydymffurfio ag amserlenni statudol lle bynnag bosib.